

Teitl y swydd: Seicolegydd Cynorthwyol
Oriau gweithio: 37.5 awr yr wythnos gan weithio'n hyblyg yn ystod yr wythnos, gyda'r nos a dros benwythnosau
Cyflog: Band 4
Math o Gontract: Parhaol

Grŵp Gofal Treherne

Mae Grŵp Gofal Treherne yn cynnig Gwasanaeth Gofal Cartref Arbenigol sy'n unigryw i ddefnyddwyr ein gwasanaeth. Rydym ni'n gallu cynnig tenantiaethau wedi'u cefnogi o fewn campws diogel, gan alluogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain gyda chymorth a goruchwyliaeth 24 awr gan dimau arbenigol o staff. Rydym ni'n arwain ar ddarparu pecynnau gofal arloesol wedi'u teilwra'n unigol ar gyfer pobl ag anghenion sylweddol a chymhleth. Mae gennym ni hanes o lwyddiant gydag unigolion sydd fel arall yn cael eu hystyried yn 'anodd eu lleoli' ac sy'n cyflwyno ymddygiadau sy'n atal eu hintegreiddiad â chymdeithas prif ffrwd. Mae Grŵp Gofal Treherne wedi dangos yn gyson y gall pobl ag anghenion difrifol, parhaus a chymhleth ffynnu mewn lleoliad gofal cartref arbenigol.

Mae cyfle wedi codi i Seicolegydd Cynorthwyol ymuno â'n tîm clinigol. Bydd y rôl yn cynnwys cynnal asesiadau a gweithredu gwasanaethau triniaeth i gleientiaid sy'n dioddef o salwch meddwl difrifol a pharhaus a/neu anhwylderau personoliaeth ac anableddau deallusol (y cyfeirir atynt yn ffurfiol fel Anableddau Dysgu). Byddwch yn cynorthwyo'r tîm clinigol i asesu a rheoli risg, yn ogystal â datblygu ymyriadau seicolegol i leddfu anawsterau cleientiaid.

Rhaid i chi fod â gradd Anrhydedd dda (2:1 neu uwch) sy'n cyd-fynd â Sail Gofrestru Cymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) ar gyfer Graddedigion. Mae profiad blaenorol fel Seicolegydd Cynorthwyol yn ddymunol, yn ogystal â phrofiad o weinyddu a dehongli asesiadau seicometrig. Disgwylir i chi weithio oriau hyblyg pan fo angen.

Bydd yn rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fodloni manyleb y person er mwyn cael cynnig y swydd hon. Bydd pob ymgeisydd yn destun gwiriad DBS manylach a gwiriadau geirdaon.

Byddwch yn chwaraewr tîm cryf, yn hyderus, yn frwdfrydig ac yn drefnus. Bydd gennych ddealltwriaeth dda o rôl ffiniau therapiwtig a phwysigrwydd ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae amynedd ac ymrwymiad yn hanfodol, ond yn anad dim byddwch yn rhywun sydd ag awydd gwirioneddol i helpu eraill.

I weld y Disgrifiad Swydd, Manyleb y Person a'r Pecyn Cais, cysylltwch â Dawn Axworthy neu Tina Osborne drwy anfon e-bost at Dawna@trehernecaregroup.com neu Tinao@trehernecaregroup.com neu ffonio 01341 424650

I gael trafodaeth anffurfiol am y swydd seicolegydd cynorthwyol, cysylltwch â Joshua Beckett, Seicolegydd/Seicotherapydd drwy anfon e-bost at joshb@trehernecaregroup.com neu ffonio 01341 424 653.

I gael rhagor o wybodaeth am Grŵp Gofal Treherne ewch i'n gwefan drwy www.trehernecaregroup.co.uk neu cysylltwch â Patty Morris, Cyfarwyddwr Gofal, drwy anfon e-bost at pattym@trehernecaregroup.com neu ffonio 01341 424652.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 12 Gorffennaf 2019

Rydym ni'n gobeithio y bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn dechrau 22 Gorffennaf 2019